# Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## EOC(3)02-07(p.3): 11 Hydref 2007

### Ymchwiliad y Pwyllgor i faterion sy’n effeithio ar weithwyr mudol""

### Cefndir

Yn ei gyfarfod ar 27 Medi, cytunodd yr Aelodau i gynnal ymchwiliad craffu fydd yn canolbwyntio ar brofiadau gweithwyr mudol yng Nghymru.

### Cylch gorchwyl arfaethedig yr ymchwiliad

Craffu ar Lywodraeth y Cynulliad a’r gwaith mae’n ei wneud i gefnogi gweithwyr mudol a’u teuluoedd, darparwyr gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau lleol sydd â chyfran uchel o bobl fudol yn rhan o’u poblogaeth; a Gwneud argymhellion ar y gweithredu sydd ei angen i sicrhau fod cyfleoedd cyfartal i weithwyr mudol, eu teuluoedd a’r bobl sy’n byw yn y cymunedau y maent hwy’n byw ac yn gweithio ynddynt. I wneud hynny, bydd y Pwyllgor yn :

Edrych ar brofiadau gweithwyr mudol a’u teuluoedd yng Nghymru gan edrych yn benodol ar: amodau byw a gweithio; mynediad at wasanaethau cyhoeddus; rhwydweithio cymdeithasol
Adnabod effaith mudo economaidd ar rai sy’n darparu gwasanaethau cyhoeddus ac ar gymunedau lleol
Ymchwilio i effaith y fframwaith rheoli presennol sy’n llywodraethu amodau byw a gweithio gweithwyr mudol yng Nghymru
Tynnu sylw at esiamplau o arferion da gyda golwg ar gysylltiadau gyda chymunedau; polisïau cyflogaeth a darparu gwasanaethau.

### Argymhelliad

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo’r cylch gorchwyl a awgrymir, y llythyr ymgynghori drafft yn Atodiad A a’r rhestr o ymgyngoreion arfaethedig yn Atodiad B.

### Y Gwasanaeth Pwyllgorau

### Hydref 2007